



# Adroddiad Blynnyddol y Corff Llywodraethu Governing Body Annual Report

---

2023 – 2024

---





# Robert Evans, QPM

CADEIRYDD Y  
CORFF LLYWODRAETHU  
CHAIR OF THE GOVERNING BODY

Mae'n bleser gen i gyflwyno fy Adroddiad Blynnyddol ar ran Corff Llywodraethol Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, ym mlwyddyn 24 o'n bodolaeth.

Mae'n bleser gen i gofnodi, yn dilyn y cyfnod cyfnerthu ar ôl Covid y llynedd, y dychwelodd dull o 'rhythm rheolaidd' i fywyd yr ysgol. Er bod y ffocws cadarn ar les (y disgylion a staff) a gofal bugeilol yn parhau, mae'r tîm arweinyddiaeth wedi rhoi sylw i gynnal ein gwerthoedd craidd a'n safonau. Mae arolygon ymhlið rhieni, disgylion a staff yn dangos cefnogaeth a boddhad sylweddol i'r dull hwn o fynd ati. I'r perwyl hwn, mae'r tîm arweinyddiaeth yn ymwybodol o'r cydbywysedd brau hwnnw rhwng gofal a disgylbaeth y maen nhw, ynghyd â'r llywodraethwyr, yn ei adolygu yn gyson.

Mae ystâd yr ysgol yn sialens gyfredol a pharhaus. Rydyn ni wrth ein bodd ein bod wedi cael estyniad mawr i'r ysgol ac wedi ail-wampio llawer ohoni; foddy bynnag, fel gyda llawer o adeiladau newydd, mae 'na fân broblemau. Mae'r ddeialog gyda chontractwyr a Chyngor y Fro yn dal i fynd rhagddi.

Er y croesawyd cyllid cyfalaf yn ystod y blynnyddoedd diwethaf, mae cyllidebau refeniw yn parhau yn dynn iawn. Chwilio am arbedion bob amser ac mae ffocws staff a llywodraethwyr fel ei gilydd ar gynnig yr addysg orau bosibl yn yr hinsawdd sydd ohoni o gyfyngiadau anodd iawn ar gyllidebau. Bydd sialens y flwyddyn nesaf yr un mor heriol, ond gyda'n gilydd, a gyda chymorth Cyngor y Fro, 'rwym yn hyderus y byddwn yn cynnal y safonau a'r gofal uchel yr ydny ni wedi gweithio mor galed i'w cyflawni.

**It is with great pleasure that I present my Annual Report on behalf of the Governing Body at Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, in this our 24th year.**

Following on from last year's post-covid consolidation, a regular 'school rhythm' has returned in some form, I am delighted to report. Whilst the strong focus on welfare (of pupils and staff) and pastoral care remains, the leadership team have given attention to maintaining our core values and standards. Surveys amongst parents, pupils and staff show significant support and satisfaction at such an approach. In line with that, the leadership team are conscious of that delicate balance between care and discipline which, as a leadership team and governors, we keep under regular review.

The school estate is a current and ongoing challenge. We are delighted to have had a large extension and refit over much of the school; however, as with all new-builds, snagging becomes an issue. Dialogue with contractors and the Vale Council continues.

Whilst capital funding has been welcomed over the last few years, revenue budgets remain very tight. Efficiencies are always being sought and staff and governors alike are focused on providing the best possible education against a backdrop of very difficult budget constraints. The coming year will be no less challenging, but together, and with the support of the Vale Council, I am confident we will maintain the high standards and care we have worked so hard over the years to achieve.

Mae'r safonau hynny yn dal i fy synnu. Roedd canlyniadau academaidd eleni ymhlið yr uchaf yng Nghymru ac o fewn y Sector Cyfrwng Cymraeg. Mae ein disgylion ar lefel TGAU a Lefel A unwaith eto wedi rhagori ac rydyn ni'n ymfalchïo ymhob un ohonyн nhw. Ar wahân i academia, mae ein henw da fel ysgol ym maes chwaraeon a diwylliant yn dal i gynyddu, fel y gwelwn wrth i Sgwad Rygbi Bechyn Blwyddyn 10 ennill Pencampwriaeth Genedlaethol Ysgolion Cymru.

Llongyfarchiadau anferthol iddyn nhw ac i bob disgylb sydd wedi ymroi i gynrychioli'r ysgol yn eu dewis o weithgaredd. Yn unol â hynny, rhaid diolch i'r athrawon a'r rhieni wirfoddolwyr sy'n treulio oriau allygyr siol ychwanegol yn cynorthwyo a chefnogi gweithgareddau o'r fath.

O ran athrawon a staff, mae'n drawiadol ein bod yn parhau i ddenu ymgeiswyr o'r radd flaenaf. Gall reciwtio o fewn y sector cyfrwng Cymraeg fod yn heriol ond rydyn ni'n ffodus nad oes gennym lawer o swyddi gwag a nifer iach o ymgeiswyr ar gyfer y mwyafrif o bynciau. Mae hyn, yn ddi-os, yn adlewyrchu'r enw sydd gan yr ysgol o fewn y gymuned addysgu ehangach. Yn yr un modd, rydyn ni'n hynod ddiolchgar i'r holl athrawon a'r staff cyfredol sy'n parhau i weithio ar y safon uchaf posibl er lles ein disgylion. Diolch o galon i bob un ohnoch.

Bob blwyddyn , rydyn ni'n croesawu staff newydd a ffarwelio ag eraill, yn aml oherwydd eu bod yn ymddeol ar ôl blynnyddoedd o wasanaeth teyrngar ac ymrodredig i'r ysgol. Dydy eleni ddim yn eithriad ac rydyn ni'n diolch i bawb sy'n symud ymlaen ac yn dymuno'n dda iddyn nhw. Y rhai sy'n mwynhau ymddeoliad haeddiannol ydy Catrin Davies, Ithel Davies, Ffion Harries a Dilwyn Owen. Dymunwn ymddeoliad hir a hapus iddyn nhw.

Yn olaf, bu'n flwyddyn gyffrous i Glenc ein Llywodraethwyr, Mrs Charlotte Déchamps Evans. Mae Charlotte yn cychwyn ar gyfnod mamolaeth yn fuan, cyn geni ei phlentynt cyntaf. Rydyn ni'n diolch iddi'n gynnes am ei gwaith caled parhaus yn cynorthwyo llywodraethwyr ac yn dymuno'n dda iddi ar gyfer yr enedigaeth.

Those standards continue to amaze me. Academic outcomes this year were once again amongst the highest in Wales and within the Welsh Medium Sector. Our pupils, at both GCSE and A Level, have once again excelled and we are proud of each and every one of them. Away from academia, our reputation as a school with sporting and cultural excellence continues to grow, none typified more so than by our Year 10 Boys Rugby Squad winning the Wales Schools National Championship. Huge congratulations go to them and all pupils who have dedicated themselves to representing the school in their chosen pursuit. In line with that, a huge thank you goes to the many teachers and parent volunteers who spend extra curricular hours supporting such activities.

Regarding teachers and staff, it is notable that we continue to attract the highest calibre applicants. Recruitment within the Welsh medium sector can be challenging but we are fortunate in having low vacancy rates and healthy numbers of applicants for most subjects. This no doubt reflects the reputation the school enjoys within the wider teaching community. Similarly, we are hugely grateful to all existing teachers and staff who continue to work at the highest possible standards to do the best for our pupils. Thaank you one and all.

Each year we welcome new staff and say goodbye to others, often to retirement after many years of devoted service to the school. This year is no exception and we extend our thanks and best wishes to all who are moving on. Enjoying a well-earned retirement are Catrin Davies, Ithel Davies, Ffion Harries and Dilwyn Owen. We wish them a long and happy retirement.

Finally, it has been an exciting year for our Clerk to Governors, Mrs Charlotte Déchamps Evans. Charlotte soon embarks on maternity leave in anticipation of her first child. We thank her warmly for her continued hard work in support of governors and wish her well for the forthcoming birth.



# Rhys Angell Jones

Y PENNAETH  
HEAD TEACHER

Mae blwyddyn arall yn hanes Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg wedi hedfan ac wrth inni agosáu at ben blwydd yr ysgol yn 25 mlwydd oed, pleser yw cyflwyno gwybodaeth unwaith eto yngylch datblygiadau, llwyddiannau a chynlluniau'r ysgol.

Braf yw gallu nodi bod ein disgyblion wedi profi llwyddiannau arbennig unwaith eto eleni ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Roedd canlyniadau arholiadau 2023-24 gyda'r gorau mae disgyblion Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg wedi eu derbyn erioed. Yn y flwyddyn gyntaf ers 2019, lle bu disgyblion yn sefyll arholiadau heb unrhyw addasiadau yn gysylltiedig â Covid, derbyniodd ein disgyblion ganlyniadau oedd yn uwch na'r rhai a gyflawnwyd gan ddisgyblion yr ysgol yn ystod 2022-23, ac sy'n cymharu'n ffafriol iawn a'r canlyniadau rhagorol a gyflawnwyd yn 2019.

O ran arholiadau TGAU, cynhalwyd safonau uchel yn y Gymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda dros 80% o'r disgyblion yn ennill gradd A\*-C ym mhob un o'r pynciau o garfan fawr o 203 o ddisgyblion Blwyddyn 11. Roedd hefyd yn braf gweld 84% o ddisgyblion yn ennill o leiaf 5 gradd A\*-C, a 19% o ddisgyblion yn ennill o leiaf 10 gradd A\*-A. Cyflawnodd cyfanswm o 31% o ddisgyblion 5 neu'n fwy o raddau A\* neu A ar draws ystod o bynciau. Mae'r canlyniadau hyn yn gynnnydd ar y flwyddyn academaidd flaenorol ac yn sylweddol uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Yn yr un modd, llwyddiant oedd hanes disgyblion hŷn yr ysgol wrth iddynt brofi llwyddiannau haeddiannol ar ddiwedd eu

**Another year in Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg's history has flown by and as we approach the school's 25th anniversary, it is a pleasure to once again present information on the school's developments, successes and plans for the future.**

Our pupils have once again experienced outstanding achievements this year in all aspects of school life. The 2023-24 exam results were the best Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg pupils have ever received. In the first year since 2019, where pupils sat exams without any Covid-related adjustments, our pupils achieved results that exceeded those achieved by the school's pupils during 2022-23, and which compare very favourably with the outstanding results achieved in 2019.

High standards were maintained in GCSE Welsh, English, Maths and Science exams with over 80% of pupils achieving an A\*-C grade in each of the subjects from a large cohort of 203 Year 11 pupils. It was also pleasing to see 84% of pupils achieving at least 5 A\*-C grades, and 19% of pupils achieving at least 10 A\*-A grades. A total of 31% of pupils achieved 5 or more A\* or A grades across a range of subjects. These results are an increase on the previous academic year and significantly above national averages.

Similarly, success was the story of the school's senior pupils as they experienced well-deserved achievements at the end of their time studying a wide range of A-level and vocational subjects. We were delighted to see almost all year 13 pupils receiving results that enabled them to access their

cyfnod yn astudio ystod eang o bynciau Safon Uwch a galwedigaethol. Roedd ym hynod falch gweld bron bob un o ddisgyblion blwyddyn 13 yn derbyn canlyniadau oedd yn eu galluogi i gael mynediad at y cyrsiau prifysgol o'u dewis cyntaf, prentisiaethau safonol neu leoliadau byd gwaith oedd yn diwallu eu dyheadau. Derbyniodd 20% o'r disgyblion o leiaf 3 A\*-A a gwelwyd 71% o'r disgyblion yn derbyn o leiaf 3 A\*-C. Yn unol â chanlyniadau CA4, roedd rhain yn gynnnydd ar ganlyniadau y flwyddyn academaidd flaenorol, ac roeddent yn sylweddol uwch na chanlyniadau 2019.

Gwelwyd llwyddiannau ysgubol unwaith eto ar y llwyfannau celfyddydol a'r meysydd chwaraeon. Mae ein timau chwaraeon wedi dangos eu doniau eto eleni wrth i'r merched gyrraedd rownd derfynol pêl rhwyd dan-16 Cymru a'r bechgyn gael eu coroni yn bencampwyr Cwpan Rygbi Cymru dan-14. Mae nifer o ddisgyblion hefyd wedi profi llwyddiant unigol neu fel rhan o dim mewn ystod o gampau ar level cenedlaethol a rhywgladol gan gynnwys sglefrio iâ, marchogaeth, crefftâu ymladd, sgio, athletau, trawsgwlad, beicio mynydd, pêl rhwyd a hociau.

Mae hefyd wedi bod yn flwyddyn i'w chofio i'r disgyblion sy'n ymddiddori yn celfyddydau perfformio gyda nifer wedi profi llwyddiannau personol yn lleol ac yn rhywgladol trwy ganu a dawnsio pan yn cynrychioli'r ysgol a chlybiau lleol. Yn ystod tymor yr Hydref, llwyfanwyd sioe gerdd Grease ble gafodd dros 1,000 o reini ac aelodau eraill o'n cymuned y cyfre i fwynhau gwledd o actio, dawnsio a chanu o'r radd flaenaf. Rhoddodd safon y perfformiadau a'r adborth gan y cyhoedd hyder i'n disgyblion talentog, ond pwy feddyliau y byddem yn gweld y fath llwyddiant â'r hyn a welsom yn Eisteddfod yr Urdd, Maldwyn? Cafwyd llwyddiant mewn ystod eang o gystadlaethau gan ennill 5 gwobr gyntaf oedd yn cynnwys ensemble gitâr am y tro cyntaf a'r grŵp dawnsio aml-gyfrwng am yr ail flwyddyn yn olynol. Enillodd disgybl Blwyddyn 12 gwobr unawdyydd mwyaf addawol yr Wyl yn ogystal. Enillwyd 3 ail gwobr a 2 trydydd gwobr oedd yn cynnwys ysgrifennu traethawd feddygol i Brifysgol Bangor. Hyfryd oedd gweld ein disgyblion iau yn cyrraedd y Genedlaethol gyda'r Gân Actol am y tro cyntaf yn ein hanes gyda pherfformiad arbennig. Bu'n blres llwyr

first choice university courses, high quality apprenticeships or work placements that satisfy their aspirations. 20% of pupils received at least 3 grades at A\*-A and 71% of pupils received at least 3 grades at A\*-C. In keeping with the KS4 results, these were an increase on the previous academic year's results, and were significantly higher than the 2019 results.

Huge successes were once again seen on the stage and sports grounds again during 2023-24. Our sports teams maximised their talents again as the girls reached the Welsh under-16 netball final and the boys were crowned Wales Under-14 Rugby champions. A number of pupils have also experienced individual or team success in a range of sports at national and international level including ice skating, horse riding, martial arts, skiing, athletics, cross country, mountain biking, netball and hockey.

It has also been a year to remember for pupils interested in performing arts with many having experienced personal successes locally and internationally by singing and dancing while representing the school and local clubs. During the Autumn term, Grease the musical was staged and over 1,000 parents and other members of our community had the opportunity to enjoy a feast of top-class acting, dancing and singing. The standard of performances and feedback from the public gave confidence to our talented pupils, but who would have thought that we would see such success at the Urdd Eisteddfod in Montgomery? There was success in a wide range of competitions where our pupils were placed first in five competitions which included a guitar ensemble for the first time and the multi-media dance group for the second successive year. One of our Year 12 pupils also won the Eisteddfod's most promising soloist award. In addition, our pupils were awarded 3 second and 2 third prizes which included writing a medical essay for Bangor University. It was a delight to see our younger pupils reach the National Eisteddfod with a fantastic performance of their 'Cân Actol' for the first time in our history. It was also an absolute pleasure to see so many primary and secondary Ysgol Gymraeg Bro

gweld cymaint o ddisgyblion cynradd ac uwchradd Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn diddanu y cyhoedd yng Ngŵyl Fach y Fro eto eleni.

Rydym yn ymfalchi o y ffaith bod disgyblion wedi manteisio ar gyfleoedd i gystadlu ar lefel arbenigol pynciol eleni ble gwelwyd llwyddiant mewn cystadlaethau siarad cyhoeddus a Gwyddoniaeth yn ystod 2023-24. Yn ychwanegol, mae cannoedd o ddisgyblion wedi bod ar gyrsiau, teithiau, ymwestiadau ac aldeithiau sydd wedi eu trefnu gan staff yn y mwyaf helaeth o'n hadnannau ledled Cymru. Prydain, Gorllewin Ewrop a'r UDA yn ystod y flwyddyn academaidd, a hynny gan amlaf yn ystod eu gwyliau. Does dim dwywaith amdani, mae'r cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg heb eu hail o ganlyniad i ymroddiad a thalentau ein staff.

Wrth edrych ymlaen at y flwyddyn academaidd nesaf mae gwaith sylwedol wedi'i gyflawni i geisio sicrhau yr un llwyddiant a brofwyd yn ystod 2023-24. Mae'r ffaith bod niferoedd y disgyblion sy'n mynychu yr Ysgol ar gynnydd yn adlewyrchiad o llwyddiant yr ysgol ac addysg Gymraeg ym Mro Morgannwg. Rydym yn hynod falch o hyn am resymau sy'n ymwneud ân pwrrpas a'n hunaniaeth ond mae hefyd yn ein galluogi i ddenu staff newydd o safon i atgyfnerthu y corff o staff arbennig sy'n bodoli yma eisoes. Yn ystod ail hanner 2023-24 roeddem wrthi yn reciriwto, a braf yw adrodd ein bod wedi denu nifer o athrawon a staff cynorthwyo arbennig o ysgolion eraill ond hefyd o'n 6ed dosbarth ein hunain. Mae'r ddau beth yn adlewyrchu fod ymuno i weithio â theulu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn atyniadol ac yn ddeniadol.

Rydym unwaith eto wedi bod yn brysur yn ystod 2023-24 yn casglu barn ein holl randdeiliad drwy fforymau llais y disgybl, llais y staff a holiaduron i ddisgyblion, rhieni a staff er mwyn gallu deall beth sy'n dda yn yr ysgol a ble gallem wella ein systemau a'n gweithredoedd. O ganlyniad i'r gwaith hyn rydym wedi gwneud newidiadau i'n gweithredoedd i wella defnydd ein disgyblion o'r iaith Gymraeg trwy ein hymgyrch 'Siarada Gymraeg Gyda Fi'. Rydym wedi cryfhau ac ehangu ein systemau a'n gweithdrefnau

Morgannwg pupils entertaining the public at Gŵyl Fach y Fro again this year.

We take great pride when our pupils take advantage of opportunities to compete at a subject specialist level and this led to success in public speaking and Science competitions during 2023-24. In addition, hundreds of pupils have been on courses, excursions and expeditions organised by staff from the vast majority of our departments to locations across Wales, Britain, Western Europe and the USA during the academic year, mostly during their holidays. There is no doubt about it, the opportunities available to pupils at Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg are second to none as a result of the dedication and talents of our staff.

Looking ahead to the next academic year, significant work has been undertaken to try and achieve the same success experienced during 2023-24. The fact that pupil numbers attending the school are increasing reflects the success of the school and Welsh language education in the Vale of Glamorgan. We are extremely proud of this for reasons relating to our purpose and identity but it also enables us to attract high quality new staff to reinforce the army of outstanding staff that already exist here. During the second half of 2023-24 we were actively recruiting, and we have attracted a number of excellent teachers and support staff from other schools but also from our own 6th form, reinforcing our belief that joining the Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg family is an attractive prospect.

We have once again been busy during 2023-24 gathering the views of our stakeholders through pupil voice and staff voice forums and questionnaires for pupils, parents and staff to be able to understand what is good in school and where we could improve our systems and processes. As a result of this work we have made changes to procedures to improve pupils' use of the Welsh language through our 'Siarada Gymraeg Gyda Fi' (Speak Welsh to Me) campaign. We have strengthened and expanded our pastoral team and procedures to continue to support the wellbeing of our community by introducing Deputy Heads of Year to work with Year 7-11 pupils and also by agreeing

bugeiliol er mwyn parhau i gefnogi lles ein cymuned drwy gyflwyno Dirprwy Benaethiaid Blwyddyn i weithio gyda disgyblion blynnydoedd 7-11 a hefyd drwy gytuno ar ein 'Safonau Sylfaenol' drwy ymgynghoriad gyda disgyblion a staff. Rydym hefyd wedi agor 'Y Siop' ble byddwn yn ail-gylchu gwisg ysgol er mwyn rhoi cymorth i deuluoedd, gwella'r amgylchedd ond hefyd i atgyfnerthu ein disgwyliadau uchel o ran ymddangosiad ein disgyblion. Ac yn olaf, byddwn yn parhau i ddatblygu ein gweithgareddau i ddathlu llwyddiant, i gyrchu llais y disgybl, i gymhell ein disgyblion ac i gyfathrebu'n effeithiol gyda'n holl rhanddeiliaid. Hyn oll mewn ymateb i adborth gan ein rhanddeiliaid. Rydym am sicrhau ein bod yn cadw ein haddewid i ddiwallu anghenion a llesiant ein cymuned gan ymrwymo'n llwyd i ddarparu yr addysg a'r cyfleoedd gorau fel bod pob disgybl beth bynnag fo'u cefndir, eu gallu a'u diddordebau yn llwyddo yn yr ysgol ac yn cyrraedd pen eu mynydd personol.

I orffen, hoffwn ddiolch i holl staff, disgyblion, teuluoedd a Llywodraethwyr yr ysgol am eu cydweithrediad a'u gwaith caled wrth inni barhau i fod yn driw i'n gwerthoedd o Barch, Cymreictod a Dyfalbarhad. Rydym yn benderfynol o gyrraedd ein nod o sicrhau mai Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yw yr ysgol orau yng Nghymru.

our 'Basic Standards' through consultation with pupils and staff. We have also opened 'The Shop' where we will be recycling school uniforms to provide support to families, improve the environment but also to reinforce our high expectations when it comes to the appearance of our pupils. Finally, we will continue to develop our activities to celebrate success, strengthen pupil voice, to coach our pupils and to communicate effectively with all our stakeholders. This has all been done in response to feedback from our stakeholders. We want to ensure that we keep our promise to meet the needs and well-being of our community and fully commit to providing the best education and opportunities so that all pupils regardless of background, ability and interests succeed in school and achieve their personal goals.

To finish, I would like to thank all the school's staff, pupils, families and governors for their co-operation and hard work as we continue to be true to our values of Respect, Welshness and Perseverance. We are determined to achieve our goal of making Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg the best school in Wales.

# Cynllun Gwella Ysgol 2023 – 2026

Nod y CGY: Cymell, Diogelu a Dysgu

(Creu Diwylliant Cymell sy'n arwain at Ddiwylliant Diogelu a  
Diwylliant Dysgu)

Amcan	Mehefin 2024	Mehefin 2025	Mehefin 2026
<b>Blaenoriaeth 1: Iechyd a Lles</b>			
1a) Creu cymuned <b>Gymreig</b> ble mae pawb yn teimlo eu bod yn <b>perthyn ac yn ddiogel</b> o fewn awyrgylch sydd wedi seilio ar <b>safonau uchel sy'n datblygu dinasyddion egwyddorol gwybodus sydd yn falch o'u cymuned</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Staff yn cyfeirio at werthoedd yr ysgol yn ddyddiol a disgylion a'r staff yn eu hymgorffori</li> <li>Dim Saesneg i'w glywed ar dir yr ysgol (heblaw mewn gwrsi Saesneg)</li> <li>Safon gwisg ysgol pob disgyl yn berffaith</li> <li><b>Presenoldeb</b> yr ysgol gyfan yn uwch na'r ALL</li> <li>Cyfradd diarddel yn isel ac yn is na chyfartaledd yr Awdurdod Lleol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Safon Cymreictod rhagorol ar dir yr ysgol</li> <li>Pob disgyl a phob aelod o staff yn mwynhau bywyd ysgol</li> <li><b>Presenoldeb</b> yr ysgol gyfan yn uwch na'r ALL</li> <li>Cyfradd diarddel yn isel ac yn is na chyfartaledd yr Awdurdod Lleol</li> </ul>	
1b) Galluogi pawb i gydweithio mewn <b>awyrgylch gynhyrchiol a phosif, gyda'r disgylion yn datblygu yn unigolion iach, hyderus a pharchus</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlu grŵp Llais Y Staff i roi adborth ar sut gall yr ysgol gefnogi cydwysedd rhwng bywyd a gwaith</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Y Senedd Ysgol i ystyried anghenion lles disgylion yr ysgol ym mhob cyfarfod a sut y gellir datblygu cymorth</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Holl randdeiliaid yr ysgol yn barchus, cwrtaias, hapus ac yn garedig</li> <li>Ymddygiad yn rhagorol</li> </ul>
1c) Datblygu amgylchedd ble mae <b>arloesedd</b> yn rhan o waith naturiol yr ysgol, er mwyn datblygu sgliliau mentrus a chreadigol ein disgylion	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygiadau cyffrous yn creu cyfleoedd newydd i staff ac i ddisgylion yn gyson</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Holl staff yr ysgol yn ymroi i ddatblygu eu hunain yn broffesiynol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ethos cymell ac adferol cryf yn amlwg ym mhob agwedd o waith yr ysgol</li> </ul>

# School Improvement Plan 2023 – 2026

Aim of SIP: Motivate, Protect and Learn

(Creating a Motivating Culture that leads to a Safeguarding Culture and a Learning Culture)

Objective	June 2024	June 2025	June 2026
<b>Priority 1: Health and Wellbeing</b>			
1a) Create a <b>Welsh community</b> where everyone feels they <b>belong and are safe</b> in an environment that is based on <b>high standards that develop principled and knowledgeable citizens proud of their community</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Staff refer to school values on a daily basis and pupils and staff incorporate them</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>No English to be heard on school premises (except in English lessons)</li> <li>Perfect standard of every pupil's school uniform</li> <li>Whole school <b>attendance</b> higher than that of the LA</li> <li>Low expulsion rate and lower than Local Authority average</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Excellent standard of Welshness on school premises</li> <li>Every pupil and every member of staff enjoy school life</li> <li>Whole school <b>attendance</b> higher than that of the LA</li> <li>Low expulsion rate and lower than Local Authority average</li> </ul>
1b) Enable everyone to collaborate and work together in a <b>productive and positive atmosphere, with the pupils developing into healthy, confident and respectful individuals</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Establish Teacher Voice (Llais y Staff) group to give feedback on how the school can support the balance between life and work</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>The School Parliament to consider the well-being needs of pupils in every meeting and how to develop support</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Excellent behaviour</li> <li>All school staff commit to professional self-development</li> </ul>
1c) Develop an environment where <b>innovation</b> is a natural part of the work of the school, in order to develop the enterprising and creative skills of our pupils	<ul style="list-style-type: none"> <li>Exciting developments creating new opportunities for staff and pupils on a regular basis</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>All school stakeholders to be respectful, courteous happy and kind</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Strong motivating and remedial ethos in every aspect of the work of the school</li> </ul>

# Cynllun Gwella Ysgol 2023 – 2026

Amcan	Mehefin 2024	Mehefin 2025	Mehefin 2026
<b>Blaenoriaeth 2: Dysgu ac Addysgu</b>			
2a) Creu darpariaeth sy'n sicrhau <b>rhagoriaeth academiad a diwylliannol</b> ar gyfer pob dysybl beth bynnag fo'u cefndir a'u gallu, er mwyn eu datblygu fel dysgwyr uchelgeisiol a galluog	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pob gwers yn galluogi pob dysybl i lwyddo hyd gorau ei allu</li> <li>Disgyblion ac athrawon yn mwynhau gwersi</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pob gwers wedi'i chynllunio yn dilyn 'map gynllunio' yr ysgol</li> <li>Disgyblion yn gweithio'n galetach mewn gwersi na'u hathrawon mewn diwylliant o gymhell sy'n <b>arwain at annibynaeth</b></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pob dysybl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol tu hwnt i'r dosbarth</li> </ul>
2b) Sicrhau ein bod yn darparu <b>cwricwlwm sydd yn gyfoethog</b> o ran gwylodaeth, sgiliau a phrofiadau, a sydd yn galluogi ein disgyblion i gyrraedd 'pen eu mynydd'	<ul style="list-style-type: none"> <li>Disgyblion a staff yn deall dibenion CiG ac yn barod i weithio gyda'r cwricwlwm newydd</li> <li>Pob dysybl yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol sy'n cyfoethogi eu haddysg a'u bywydau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Darpariaeth ac amodau yn addas ar gyfer pob dysybl ac yn diwallu gofynion y Ddeddf ADY</li> <li>Pob adran yn yr ysgol yn cyfrannu at ddatblygiad y <b>medrau</b> mewn ffordd sydd wedi ei gynllunio yn strategol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pob dysybl yn gwneud cynydd addas yn y <b>medrau</b> yn ôl eu gallu</li> <li>Sgilau traws-gwricwlaidd yn ffocws ym mhob gwers</li> <li>Pob dysybl yn cael profiadau sy'n newydd ac yn gyffrous</li> <li>Darpariaeth gwricwlaidd ac allgyrsiol yn diwallu anghenion pob dysybl</li> </ul>

Amcan	Mehefin 2024	Mehefin 2025	Mehefin 2026
<b>Blaenoriaeth 3: Safonau Uchel</b>			
3a) Creu diwylliant ble mae rhagoriaeth a disgwyliadau uchel yn galluogi <b>staff a disgyblion</b> i fod yn <b>ymroddgar, brwdrydig, ysbrydoledig ac uchelgeisiol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>'Teithiau cefnogi' rheolaidd i gefnogi awyrgylch positif mewn gwersi drwy ganolbwystio ar uwcholeuo a rhannu arfer dda a rhoi clod i'r rhai sy'n cyflawni gwaith rhagorol ac yn ymddywn yn rhagorol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Defnydd systemau <b>Hunan Arfarnu a chynllunio</b> ar bob lefel yn finiog sy'n arwain at wellianiau ym mhob agwedd o waith yr ysgol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Barn rhanddeiliaid allanol e.e. rhieni ac Estyn yn gadarnhaol</li> </ul>
3b) Sicrhau fod perfformiad disgyblion ym mhob agwedd o'u gwaith yn adlewyrchu diwylliant ble mae <b>rhagoriaeth a disgwyliadau uchel</b> yn hanfodol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Data i'w gasglu a'i ddadansoddi yn ganolog unwaith pob tymor</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pob adran i ddefnyddio systemau tracio ysgol gyfan (e.e. SMID/ ALPS ) i dracio eu data yn rheolaidd ac mewn ffordd sy'n gyson ar draws yr ysgol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>SPC ysgol gyfan a phob adran i gymharu'n ffafriol â chanlyniadau blaenorol</li> </ul>

# School Improvement Plan 2023 – 2026

Objective	June 2024	June 2025	June 2026
<b>Priority 2: Learning and Teaching</b>			
2a) Create provision which ensures <b>academic and cultural excellence</b> for all pupils irrespective of their background and ability in order to develop them as ambitious and able learners	<ul style="list-style-type: none"> <li>Every lesson enables all pupils to develop to the best of their ability</li> <li>Pupils and teachers enjoy lessons</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>All lessons planned and follow the school's 'planning map'</li> <li>Pupils working harder in lessons than their teachers in a motivating culture which <b>leads to independence</b></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>All pupils are afforded the opportunity to participate in cultural activities beyond the classroom</li> </ul>
2b) Ensure that we provide a <b>curriculum rich</b> in knowledge, skills and experiences, and which enables pupils to 'reach their own goal'	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pupils and staff understand the purpose of CiG (Curriculum for Wales) and are prepared to work with the new curriculum</li> <li>All pupils have the opportunity to participate in extra-curricular activities which enrich their education and their lives.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Suitable provision and conditions for all pupils and meet the needs of the ALN Act</li> <li>All school departments contribute to the development of the <b>skills</b> in a way which has been strategically planned.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>All pupils make appropriate progress in the <b>skills</b> according to their ability</li> <li>Focus on cross-curricular skills in every lesson</li> <li>All pupils have new and exciting experiences</li> <li>Curricular and extra curricular provision meeting the needs of every pupil</li> </ul>

Objective	June 2024	June 2025	June 2026
<b>Priority 3: High Standards</b>			
3a) Create a culture whereby excellence and high expectations enable <b>staff and pupils to be motivated, enthusiastic, inspired and ambitious</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Regular 'support journeys' to support a positive atmosphere in lessons by concentrating on highlighting and sharing good practice and praising those who accomplish excellent work and display excellent behaviour</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sharp use of <b>Self Assessment systems and planning</b> at all levels which leads to improvements in all aspects of the school's work</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Positive opinions of external stakeholders e.g. Parents and Estyn</li> </ul>
3b) Ensure the pupils' performance in all aspects of their work reflects a culture whereby <b>excellence and high expectations</b> are essential	<ul style="list-style-type: none"> <li>Data to be collected and analysed centrally once a term</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>All departments use whole school tracking systems (e.g. SMID/ ALPS) to track their data on a regular basis and in a consistent way throughout the school.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Whole school SPC and all departments to favourably compare with previous results</li> </ul>

# Cynllun Gwella Ysgol 2023 – 2026

Amcan	Mehefin 2024	Mehefin 2025	Mehefin 2026
<b>Blaenoriaeth 4: Gwreiddio, Monitro, Gwerthuso</b>			
4a) <b>Gwreiddio dulliau addysgeg</b> er mwyn sicrhau fod <b>addysgu, dysgu</b> , asesu a thracio yn sicrhau rhagoriaeth academaidd a diwylliannol ar gyfer pob disgylbwl beth bynnag fo'u cefndir a'u gallu, er mwyn eu datblygu fel dysgwyr uchelgeisiol a galluog	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pob athro ym mhob adran yn defnyddio asesu ffurfiannol i wirio dealtwriaeth a chynnydd</li> <li>Pob athro ym mhob adran yn defnyddio asesu crynolol er mwyn mesur ac arrodd ar gynnydd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cwestiynu a chwestiynau aml-ddewis, metawbyddiaeth, hunan-asesu ac asesu cymheiriad yn digwydd yn naturiol mewn gwersi</li> <li>Tasgau adalw yn cael eu gosod fel gwaith cartref yn rheolaidd ym mhob pwnc er mwyn paratoi disgylbion ar gyfer arholiadau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adborth safonol yn galluogi disgylbion i fod yn annibynnol a chymryd cyfrifoldeb dros ddysgu mewn gwersi</li> <li>Staff a disgylbion yn hyderus i gymryd risc a gwneud camgymeriadau er mwyn datblygu ymhob agwedd o'u gwaith</li> <li>Pob disgylb yn gwneud cynydd addas yn y <b>medrau</b> yn ôl eu gallu</li> </ul>
4b) <b>Gwreiddio strwythur Lles a Diogelu</b> er mwyn galluogi pawb i gydweithio mewn awyrgylch gynhyrchiol a phositif, gyda'r disgylbion yn datblygu yn unigolion iach, hyderus	<ul style="list-style-type: none"> <li>Holl staff a disgylbion yr ysgol yn gyfarwydd â ac yn deall eu rôl o fewn strwythur Lles a Diogelu'r ysgol</li> <li>Disgylbion yn deall sut i gael mynediad at gymorth a chynhaliaeth</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Tim bugeliol i sicrhau fod eu canfyddiadau o arsywi <b>agweddau at ddysgu</b> yn cael eu defnyddio i gael effaith ar lawr dosbarth</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Agweddau at ddysgu yn galluogi disgylbion i fod yn annibynnol ac i gymryd cyfrifoldeb dros ddysgu mewn gwersi</li> </ul>

# School Improvement Plan 2023 – 2026

Objective	June 2024	June 2025	June 2026
<b>Priority 4: Embed, Monitor Evaluate</b>			
4a) <b>Embed pedagogy methods</b> in order to ensure that <b>teaching, learning, assessing and tracking</b> ensure academic and cultural excellence for all pupils irrespective of their background and their ability, in order to develop them as ambitious and able learners	<ul style="list-style-type: none"> <li>All teachers in all departments use formative assessments to check understanding and progress</li> <li>All teachers in all departments use summative assessments to measure and report on progress</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Questioning and multi choice questions, metacognition-awareness, self-assessment and peer assessment used as a matter of course in lessons</li> <li>Retrieving tasks set as homework on a regular basis in all subjects in order to prepare pupils for examinations</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Standard feedback enables pupils to be <b>independent</b> and to take responsibility for learning in lessons</li> <li>Staff and pupils being confident to take risks and make mistakes in order to develop pupils in every aspect of their work</li> <li>Every pupil making appropriate progress in the skills according to their ability</li> </ul>
4b) <b>Embed Well-being and Protection structure</b> in order to ensure that everyone collaborates and works together in a <b>productive and positive environment, with pupils developing into healthy, confident and respectful individuals</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>All members of staff and pupils in the school are familiar with and understand their role within the Well-being and Protection structure of the school</li> <li>Pupils understand how to access help and support</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>The pastoral team to ensure that their findings from observing <b>attitudes towards learning</b> being used to be effective in the classroom</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Attitudes towards learning enable pupils to be <b>independent</b> and to take responsibility for learning in lessons</li> </ul>

# Cynllun Gwella Ysgol 2023 – 2026

Amcan	Mehefin 2024	Mehefin 2025	Mehefin 2026
<b>Blaenoriaeth 5: Gwella Lles a Hapuswydd holl Randdeiliaid yr Ysgol</b>			
5a) <b>Gwella defnydd o'r iaith Gymraeg</b> er mwyn creu cymuned Gymreig ble mae pawb yn teimlo perthyn ac yn ddiogel o fewn awyrgylch sydd wedi seilio ar safonau uchel, i <b>ddatblygu dinasyddion egwyddorol gwybodus sy'n falch</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pob aelod o staff yn cyfeirio at werthoedd yr ysgol yn rheolaidd gan esbonio pam fod pob un yn bwysig a sicrhau fod disgylion yn deall beth yw eu hystyr</li> <li>Dim Saesneg i'w glywed ar dir yr ysgol (heblaw mewn gwrsi Saesneg)</li> <li>Safon Cymreictod rhagorol ar dir yr ysgol</li> </ul>		
5b) <b>Gwella ymddygiad, a gwisg er mwyn galluogi pawb i gydweithio mewn awyrgylch gynhyrchol a phosif, gyda'r disgylion yn datblygu yn unigolion iach, hyderus</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Safon gwisg disgylion yn wych</li> <li>Y Senedd Ysgol i ystyried anghenion lles disgylion yr ysgol ym mhob cyfarfod a sut y gellir datblygu cymorth</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ethos cymhell ac adferol cryf yn amlwg ym mhob agwedd o waith yr ysgol</li> <li>Ymddygiad rhagorol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Parch yn amlwg ym mhob agwedd o fywyd ysgol disgylion a staff</li> </ul>
5c) <b>Gwella cyfathrebu</b> rhwng holl randdeiliaid yr ysgol er mwyn <b>galluogi pawb i gyrraedd 'pen eu mynydd'</b> trwy fyw ein gwerthoedd o fewn gymuned hapus	<ul style="list-style-type: none"> <li>Holl rhanddeiliaid yr ysgol yn deall sut byddant yn derbyn ac yn gallu rhannu gwybodaeth</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfathrebu effeithiol yn galluogi staff a rhieni i gyfrannu at y nod o gefnogi disgylion i lwyddo ym mhob agwedd o'u bywydau ysgol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfathrebu effeithiol yn sicrhau fod pob disgylion yn deall beth maent yn ei wneud yn dda a sut i wella ac o ganlyniad yn hyderus ac yn dyfalbarhau er mwyn cyrraedd pen eu mynydd</li> </ul>

# School Improvement Plan 2023 – 2026

Objective	June 2024	June 2025	June 2026
<b>Priority 5: Enhancing the Well-being and Happiness of all School Stakeholders</b>			
5a) <b>Improve the use of Welsh</b> in order to create a Welsh community where everyone feel they belong and are safe within an environment based on high standards, <b>to develop principled, knowledgeable and proud citizens</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>All members of staff refer to the school's values regularly, explaining why each one is important and ensuring that pupils understand what they mean</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>No English to be heard on school premises (except in English lessons)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Excellent standard of Welshness on school premises</li> </ul>
5b) <b>Improve behaviour and school uniform</b> , in order to enable everyone to co-operate in a <b>productive and positive environment</b> , pupils developing into healthy, confident individuals	<ul style="list-style-type: none"> <li>Excellent standard of pupils' school uniform</li> <li>The School Parliament to consider the well-being needs of pupils in every meeting and how to develop support.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Strong motivating and remedial ethos in every aspect of the work of the school</li> <li>Excellent behaviour</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Clear and visible respect in all aspects of the school life of pupils and staff</li> </ul>
5c) <b>Improve communication</b> between all school stakeholders in order to <b>enable all pupils to reach their goal (top of the mountain)</b> by living our values within a happy community	<ul style="list-style-type: none"> <li>All school stakeholders understand how they will be receiving and able to share information</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Effective communication ensures that staff and parents contribute to the aim of supporting pupils to succeed in all aspects of their school life</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Effective communication ensures that all pupils understand what they are doing well and how to improve and, as a result, are confident and persevere to reach their goal (top of the mountain)</li> </ul>

# Corff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg 2023–2024

## Cadeirydd

Mr Robert Evans, Pen-Vistla Barns,  
Penllyn, Cowbridge, CF71 7RQ  
[robertevanswp@hotmail.com](mailto:robertevanswp@hotmail.com)

## Is-gadeirydd

Mr Geraint Evans

## Clerc

Miss Charlotte Déchamps, Swyddog Llywodraethu,  
Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg  
[cde@ygbm.co.uk](mailto:cde@ygbm.co.uk)

## Mae 21 o aelodau ar y Corff Llywodraethu

Pennaeth (Llywodraethwr ex-officio)  
6 Rhiant Llywodraethwr  
2 Gynrychiolydd Athrawon  
1 Gynrychiolydd Staff Cynnal  
6 Cynrychiolydd yr AALI  
5 Cynrychiolydd Cyfetholedig

## Pennaeth

Mr Rhys Angell Jones

## Rhieni Llywodraethwyr [cyfnod yn dod i ben]

Mr John Paul Barker [06/10/24]  
Mrs Sally-ann Efstathiou [06/10/24]  
Mr Richard Smith [11/10/25]  
Mr Rhodri Jones [06/10/24]  
Mr Rhodri Lewis [06/10/24]  
Mrs Cathy Williams [06/10/24]

## Cynrychiolwyr Athrawon [cyfnod yn dod i ben]

Miss Ffion Williams [31/01/27]  
Miss Stephanie Johns [01/09/26]

## Cynrychiolwyr Staff Cymorth [cyfnod yn dod i ben]

Miss Lauren Tabernacle [22/10/25]

## Llywodraethwyr yr AALI [cyfnod yn dod i ben]

Mr Robert Evans [18/10/24]  
Mr Geraint Evans [18/10/24]  
Mr Delyn Griffith [18/10/24]  
Mrs Maxine Griffiths [15/01/27]  
Mr Huw Llewellyn-Morgan [18/10/24]  
Cllr Mr Steffan Wiliam [18/10/24]

## Llywodraethwyr Cymunedol [cyfnod yn dod i ben]

Mr Carl Brown [10/06/25]  
Mrs Anne-Louise Llewellyn-Morgan [10/07/24]  
Dr Paul Orders [01/09/24]  
Mr Warren Scott [01/09/24]  
[Un lle heb ei lenwi]

# Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg Governing Body 2023–2024

## Chairman

Mr Robert Evans, Pen-Vistla Barns,  
Penllyn, Cowbridge, CF71 7RQ  
[robertevanswp@hotmail.com](mailto:robertevanswp@hotmail.com)

## Deputy

Mr Geraint Evans

## Clerk

Miss Charlotte Déchamps, Swyddog Llywodraethu,  
Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg  
[cde@ygbm.co.uk](mailto:cde@ygbm.co.uk)

## Mae 21 o aelodau ar y Corff Llywodraethu

Pennaeth (Llywodraethwr ex-officio)  
6 Rhiant Llywodraethwr  
2 Gynrychiolydd Athrawon  
1 Gynrychiolydd Staff Cynnal  
6 Cynrychiolydd yr AALI  
5 Cynrychiolydd Cyfetholedig

## Pennaeth

Mr Rhys Angell Jones

## Rhieni Llywodraethwyr [cyfnod yn dod i ben]

Mr John Paul Barker [06/10/24]  
Mrs Sally-ann Efstathiou [06/10/24]  
Mr Richard Smith [11/10/25]  
Mr Rhodri Jones [06/10/24]  
Mr Rhodri Lewis [06/10/24]  
Mrs Cathy Williams [06/10/24]

## Cynrychiolwyr Athrawon [cyfnod yn dod i ben]

Miss Ffion Williams [31/01/27]  
Miss Stephanie Johns [01/09/26]

## Cynrychiolwyr Staff Cymorth [cyfnod yn dod i ben]

Miss Lauren Tabernacle [22/10/25]

## Llywodraethwyr yr AALI [cyfnod yn dod i ben]

Mr Robert Evans [18/10/24]  
Mr Geraint Evans [18/10/24]  
Mr Delyn Griffith [18/10/24]  
Mrs Maxine Griffiths [15/01/27]  
Mr Huw Llewellyn-Morgan [18/10/24]  
Cllr Mr Steffan Wiliam [18/10/24]

## Llywodraethwyr Cymunedol [cyfnod yn dod i ben]

Mr Carl Brown [10/06/25]  
Mrs Anne-Louise Llewellyn-Morgan [10/07/24]  
Dr Paul Orders [01/09/24]  
Mr Warren Scott [01/09/24]  
[One Vacancy]

# Dyddiadau Tymor 2024/2025

Tymor	Dechrau	Hanner Tymor		Diwedd	Diwrnodau Ysgol
		Dechrau	Diwedd		
Hydref 2024	Dydd Llun 2 Medi 2024	Dydd Llun 28 Hydref 2024	Dydd Gwener 1 Tachwedd 2024	Dydd Gwener 20 Rhagfyr 2024	75
Gwanwyn 2025	Dydd Llun 6 Ionawr 2025	Dydd Llun 24 Chewfror 2025	Dydd Gwener 28 Chewfror 2025	Dydd Gwener 11 Ebrill 2025	65
Haf 2025	Dydd Llun 28 Ebrill 2025	Dydd Llun 26 Mai 2025	Dydd Gwener 30 Mai 2025	*Dydd Llun 21 Gorffennaf 2025	55
				Cyfanswm	195

## Dyddiadau Pwysig

Bydd **Dydd Llun 2 Medi 2024 a Dydd Llun 21 Gorffennaf 2025** yn cael eu dynodi yn ddiwrnodau HMS ar gyfer **pob** Ysgol a Gynhelir gan yr AALI Bydd y tridau HMS sy'n weddill i'w cymryd yn ôl disgrifiwn pob ysgol yn unigol.

\*Bwriadir y caiff y dyddiau HMS hyn eu cymryd naill ai ar ddydd Llun 21 Gorffennaf neu ar adegau eraill i'w penderfynu gan ysgolion unigol, yn dilyn ymgynghori'n briodol gyda staff, er enghraifft, yn ystod y gwyliau presennol neu ar ffurf sesiynau gyda'r hwyr.

Bydd yr holl ysgolion yn cau ar **Dydd Llun 5 Mai 2024** ar gyfer Gŵyl Banc Calan Mai.

## Dyddiadau pwysig:

**Y Nadolig** Dydd Mercher 25 Rhagfyr 2024

**Y Pasg** Dydd Gwener y Groglith 18 Ebrill 2025  
Dydd Llun y Pasg 21 Ebrill 2025

**Gwyliau Banc mis Mai** Dydd Llun 5 Mai 2025  
Dydd Llun 26 Mai 2025

# Term Dates 2024/2025

Term	Begin	Half Term		End	No. of School Days
		Begin	End		
Autumn 2024	Monday 2 September 2024	Monday 28 October 2024	Friday 1 November 2024	Friday 20 December 2024	75
Spring 2025	Monday 6 January 2025	Monday 24 February 2025	Friday 28 February 2025	Friday 11 April 2025	65
Summer 2025	Monday 28 April 2025	Monday 26 May 2025	Friday 30 May 2025	* Monday 21 July 2025	55
				Total	195

## Significant Dates

**Monday 2 September 2024 and \*Monday 21 July 2025** will be designated INSET days for all LEA Maintained Schools.

The remaining four INSET days to be taken, will be at the discretion of each individual school. \*It is intended that this INSET day will either be taken on Monday 21 July 2025 or at an alternative time to be decided by individual schools following appropriate consultation with staff for example in the form of twilight sessions.

All schools will be closed on **Monday 5 May 2025** for the May Day Bank Holiday.

## Significant dates:

**Christmas** Wednesday 25 December 2024

**Easter** Good Friday 18 April 2025  
Easter Monday 21 April 2025

**May Bank Holidays** Monday 5 May 2025  
Monday 26 May 2025



# Anne-Louise Llewellyn-Morgan

